TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CIPD Diploma Cyswllt mewn Rheoli Pobl Lefel 5



**Yn gryno**

Mae'r Diploma Cyswllt Lefel 5 CIPD mewn Rheoli Pobl yn darparu llwyfan perffaith i ddatblygu eich gyrfa Adnoddau Dynol ymhellach ar lefel reoli.

Bydd yn eich helpu i ddatblygu eich gallu i werthuso effeithiolrwydd gwahanol fodelau ac arferion Adnoddau Dynol, a bydd yn cynyddu eich dealltwriaeth o ffactorau allanol sy'n effeithio ar Adnoddau Dynol a sefydliadau.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... y rhai sy'n dyheu am yrfa, neu'n dechrau ar yrfa, ym maes rheoli pobl

... y rhai sy'n gweithio mewn swydd ymarfer pobl sy'n dymuno cyfrannu eu gwybodaeth a'u sgiliau i helpu i lunio gwerth sefydliadol

...y rhai sy'n gweithio tuag at, neu sy'n gweithio mewn, swydd rheoli pobl.

Mae'r cymhwyster hwn yn ymestyn ac yn meithrin lefel ddyfnach o ddealltwriaeth

a chymhwysiad ac yn naturiol yn datblygu arbenigedd dysgwyr mewn ymarfer pobl.

**Cynnwys y cwrs**

Byddwch yn astudio'r meysydd canlynol. Mae'r dosbarthiadau'n rhyngweithiol ac yn adlewyrchu eich profiad eich hun a'r deunydd cwrs.

Yr unedau craidd yn y cymhwyster yw:

Perfformiad Sefydliadol ar Waith
Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth
Ymddygiad Proffesiynol a Gwerthfawrogi Pobl
Unedau Arbenigol
Rheoli Perthynas Cyflogaeth
Rheoli Talent a Chynllunio'r Gweithlu
Gwobrau am Berfformiad a Chyfraniad
Cyfraith Cyflogaeth Arbenigol

I lwyddo yn y cwrs hwn bydd angen i chi basio aseiniad ym mhob un o'r saith modiwl.

**Gofynion Mynediad**

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr 18+ oed sydd eisiau dysgu am ymarfer pobl. Ar y lefel hon dylech fod wedi cwblhau CIPD lefel 3 neu gyfwerth a bod mewn sefyllfa lle mae gennych brofiad swyddogaethol neu reolaethol mewn AD neu ddisgyblaeth gysylltiedig. Rhaid i ddysgwyr allu bodloni gofynion y deilliannau dysgu a chael mynediad at y llythrennedd a'r rhifedd priodol sydd eu hangen i gwblhau Diploma Cyswllt CIPD Lefel 5 mewn Rheoli Pobl.

Cynhelir cyfweliad ar y ffôn gydag Arweinydd y Cwrs i egluro hyn ar gyfer Lefel 5 i sicrhau eich bod ar y cwrs cywir.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae Tystysgrif Sylfaen CIPD yn darparu cymhwyster a gydnabyddir yn broffesiynol ac mae'n hanfodol eich bod yn dod yn aelod o'r CIPD ar ôl i chi ddechrau astudio'r cymhwyster.

Nid yw pris y cwrs yn cynnwys ffioedd cofrestru ar gyfer aelodaeth myfyriwr o'r CIPD (y mae'n rhaid eu talu'n uniongyrchol i'r CIPD).

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs rhan amser hwn fel arfer yn cael ei gyflwyno un diwrnod yr wythnos am 33 wythnos.


studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)